Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhos Helyg

# (Campws Llangeithio a Champws Rhos y Wlad)

**Campws Rhos y Wlad**
**Bronant**
**Aberystwyth**
**SY23 4TQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Rhos Helyg

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Rhos Helyg |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 54 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 51 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 25.8% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 15.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | Tachwedd 2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | Rhagfyr 2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:
Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Rhos Helyg yn gymuned ofalgar, hapus a theuluol. Mae’r holl staff yn cydweithio’n effeithiol i ddarparu naws gynhwysol a chyfeillgar ble mae disgyblion yn ymddwyn yn barchus ac y gwrtais. Mae’r disgyblion yn dangos agwedd bositif at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn.

Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd a digidol yn dda. Er hyn, nid yw’r athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i’r disgyblion hŷn ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a’i ddathlu’n ddeniadol o gwmpas yr ysgol.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i’r disgyblion ac yn ystyried eu barn yn synhwyrol am yr hyn maent am ei ddysgu mewn perthynas â’u themâu dysgu. Er hyn, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo’r dysgu ar adegau ac nid yw lefel yr her bob amser yn addas ar gyfer diwallu anghenion bob disgybl. Ar adegau, mae profiadau dysgu yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei wreiddio a’i ddatblygu’n gyson, a chyfyng yw’r cyfleoedd i ddisgyblion fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi ei rhannu’n bwrpasol â staff, rhieni a disgyblion. Mae’r weledigaeth yn seiliedig ar roi cyfle i bob disgybl ffynnu o fewn amgylchedd gofalgar. Mae staff yn eu cefnogi’n ymroddgar ac angerddol. Mewn amser byr, mae hyn wedi galluogi’r pennaeth dros dro i adnabod cryfderau ac agweddau ar gyfer gwelliant yr ysgol yn gywir. Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o’r ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o’u rolau a’u cyfrifoldebau. Maent yn cefnogi arweinwyr a staff yn briodol.

## Argymhellion

A1 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn herio’r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A3 Sicrhau cyfleoedd pwrpasol i’r disgyblion hŷn ddatblygu a chymhwyso’u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cyson o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu gwybodaeth, dealltwriaeth a'u medrau yn briodol mewn cyd-destunau dysgu sy'n eu hannog i fwynhau eu dysgu.

At ei gilydd, mae medrau llythrennedd disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar yr athrawon a'r cymorthyddion. Maent yn parchu barnau a chyfraniadau eu cyfoedion wrth drafod eu gwaith ac yn ymateb yn briodol iddynt. Mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn caffael y Gymraeg yn fuddiol ac yn datblygu'n siaradwyr hyderus wrth fwynhau eu dysgu, er enghraifft wrth drafod hinsawdd Cymru pan oedd y dinosoriaid yn teyrnasu. Mae'r dysgwyr hŷn yn gwneud cynnydd cadarn gyda datblygu eu medrau siarad yn y Gymraeg a Saesneg ac yn trafod yn ddeallus mewn amryw gyd-destunau gan ddefnyddio geirfa gywir a phwrpasol. Ar y cyfan, mae disgyblion yn siarad Cymraeg yn ddigymell wrth gynnal trafodaethau yn y dosbarth ac wrth gymdeithasu yn ystod amseroedd egwyl. Mae hwyrddyfodiaid yn dysgu'r iaith Gymraeg yn gyflym iawn sydd yn eu galluogi i fod yn gyfranwyr llawn yn y dosbarthiadau mewn amser byr.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu gwybodaeth am seiniau llythrennau yn fedrus, ac erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio ystod dda o strategaethau yn effeithiol i ddarllen geiriau llai cyfarwydd. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn trafod cynnwys straeon dosbarth gyda brwdfrydedd. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn ymestyn eu medrau darllen yn briodol ac yn trafod cynnwys testun yn synhwyrol ac aeddfed. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau darllen yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus drwy arbrofi a chreu marciau gydag adnoddau amrywiol. Erbyn Blwyddyn 2 maent yn ysgrifennu brawddegau syml yn gywir gan ddefnyddio prif lythrennau ac atalnodau llawn yn gywir, ar y cyfan. Maent yn cynnwys ansoddeiriau er mwyn cyfoethogi eu gwaith, er enghraifft wrth ddisgrifio'r eglwys leol. Pan mae'r disgyblion hŷn yn cael cyfleoedd i ysgrifennu'n estynedig, maent yn cynhyrchu gwaith o safon. Maent yn paragraffu'n effeithiol ac yn ystyried y darllenydd wrth ddewis geirfa bwrpasol i ennyn diddordeb a chreu effeithiau â geiriau. Er enghraifft, maent yn defnyddio cwestiynau rhethregol a berfau gorchmynnol yn llwyddiannus i ysgrifennu araith er mwyn dwyn perswâd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau mathemateg. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau, ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth gyferbynnu rhifau a gwrthrychau wrth gadw cofnod o adar yng ngardd yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft wrth chwarae gêm gardiau sy'n defnyddio ffeithiau mathemategol am

wahanol anifeiliaid. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau mathemategol yn fuddiol. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r pedair rheol ac yn eu defnyddio'n effeithiol i ddatrys problemau mathemategol. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn hyderus wrth ddefnyddio llechen gyfrifiadurol i greu animeiddiadau. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o feddalwedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion y dosbarthiadau hŷn yn defnyddio meddalwedd rheoli i greu addurniadau Nadoligaidd deniadol.

Mae'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn gadarn. Ym mlynyddoedd isaf yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn mwynhau defnyddio ystod o offer a defnyddiau i greu lluniau a modelau. Er enghraifft, fel rhan o'u thema, mae disgyblion yn creu patrymau gwahanol gyda dail. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio am amser estynedig wrth gynllunio, creu ac addurno darnau o grochenwaith gwreiddiol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n hybu eu hiechyd a'u lles yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r llysgenhadon efydd yn trefnu ac yn rheoli sesiynau corfforol ar iard yr ysgol ac yn annog y digyblion i gadw'n heini. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau corfforol mân a mawr mewn amryw  weithgareddau. Mae'r disgyblion hynaf yn cymryd rhan mewn gemau tîm ac yn datblygu medrau cadarn mewn gwersi addysg gorfforol amrywiol.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae Ysgol Rhos Helyg yn gymuned gyfeillgar a chartrefol. Mae bron bob disgybl yn gwrtais ac yn arddangos lefel uchel o barch tuag eu gilydd ac oedolion. Mae eu hymddygiad yn dda mewn gwersi, wrth symud o gwmpas yr ysgol ac yn ystod amser egwyl. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, yn gwybod ble i droi os oes angen cymorth arnynt, ac yn hyderus y bydd y staff yn gwrando arnynt. Mae disgyblion yn datgan eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac yn ymroi i brofiadau newydd yn hyderus. Mae bron bob disgybl yn cydweithio'n effeithiol â'u ffrindiau ac oedolion, gan gynnig cymorth i'w gilydd o'u gwirfodd. Maent yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau'r athrawon ac yn canolbwyntio'n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn arddangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth ymwneud â thasgau. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio strategaethau pwrpasol i'w helpu i oresgyn unrhyw anawsterau sy'n eu hwynebu. Mae'r disgyblion hynny sy'n aelodau o bwyllgorau neu gynghorau yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft wrth i'r cyngor ysgol drefnu bore coffi i drigolion y pentref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach, gan drafod y buddion yn hyderus. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn trafod a dewis y cynhwysion mwyaf synhwyrol wrth greu smwddi iachus. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol y tu mewn a thu allan i'r ysgol, fel cystadlu yn niwrnod Mabolgampau Cylch Tregaron. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd. O ganlyniad,

mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wybodaeth gadarn am bwysigrwydd lles corfforol a meddyliol, gan gynnwys sut i gadw yn ddiogel ar lein.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda fel cyfranwyr mentrus a chreadigol. Er enghraifft, mae'r disgyblon hŷn yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r disgyblion iau i berfformio dramâu ar y llwyfan yn ystod amser egwyl. Mae llawer o ddisgyblion yn dangos diddordeb a dyfalbarhad wrth gyfranogi mewn agweddau newydd o'u dysgu. Fel rhan o'i thema 'Llwybrau Llewyrchus', er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o fyd gwaith wrth drefnu ymweliad i Brifysgol Aberystwyth.

Trwy eu hymwybyddiaeth o degwch a chydraddoldeb, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus. Maent yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel rhan o gymdeithas amrywiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae'r disgyblion hŷn yn dysgu am ystyr apartheid er mwyn cael gwell dealltwriaeth o anghyfiawnder yn y byd.

Gwna disgyblion gyfraniadau pwrpasol at yr hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn manteisio ar y cyfle i rannu eu diddordebau a'u syniadau wrth gyfrannu i gridiau meddwl ar ddechrau thema. O ganlyniad, mae brwdfrydedd a chyfranogiad y disgyblion tuag at eu dysgu yn dda.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr holl staff berthynas waith arbennig o dda â disgyblion. Mae hyn yn meithrin awyrgylch ofalgar a chynhwysol ar draws yr ysgol. Maent yn trin bob disgybl yn gyfartal ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda. Mae hyn yn cyfrannu tuag at yr ymdeimlad o deulu sy'n llifo trwy gymuned yr ysgol, ac yn darparu amgylchedd dysgu cefnogol ar eu cyfer.

Yn yr arfer orau, mae cyflwyniadau athrawon yn fyrlymus ac yn ysgogol. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol, gan ennyn diddordeb bron bob disgybl.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn holi'n dreiddgar gan ddefnyddio amrywiaeth o gwestiynau i ddwysáu dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion. Maent yn fedrus ac yn amyneddgar wrth reoli trafodaethau rhwng aelodau'r dosbarth, gan ddenu atebion a sylwadau aeddfed o'r disgyblion. Mae staff yn fodelau rôl iaith positif, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu rhuglder yn briodol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar llawer o ddisgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus.

Mae athrawon yn adnabod eu disgyblion yn dda. Maent yn asesu cynnydd a datblygiad disgyblion yn rheolaidd ac yn defnyddio'r wybodaeth yn synhwyrol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae adborth llafar y rhan fwyaf o athrawon yn helpu'r disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a sut i wella. Mae adborth ysgrifenedig athrawon yn cyfeirio at gywirdeb gwaith disgyblion, ac yn achlysurol ar ansawdd y cynnwys. Mae hyn yn rhoi cymorth i ddisgyblion fyfyrio ac i wella eu gwaith.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n dda ac yn sicrhau bod y gweithgareddau dysgu'n ddiddorol ac yn ymateb yn briodol i'r ystod o allu o fewn y

dosbarthiadau. Maent yn cydweithio'n effeithiol i gynllunio a theilwra profiadau sy'n adeiladu ar ddealltwriaeth, gwybodaeth a medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Fodd bynnag, ar adegau, mae athrawon yn gor-gyfarwyddo'r dysgu ac nid yw lefel yr her bob amser yn addas ar gyfer diwallu anghenion bob disgybl. Golyga hyn nad yw disgyblion yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn ddigonol.

Mae gan yr holl staff weledigaeth glir ar gyfer darparu cwricwlwm eang, cyfoethog a chytbwys, sydd yn adlewyrchu cyd-destun lleol yr ysgol ac ymdeimlad cryf o berthyn i'r ardal, y genedl a'r byd ehangach. Mae athrawon yn ymateb yn gadarnhaol i syniadau'r disgyblion tuag at eu themâu, sydd yn aml yn arwain at weithgareddau cyffrous er mwyn ennyn eu diddordeb. Darperir ystod o ymweliadau amrywiol â mannau diddorol o fewn yr ardal a thu hwnt, er enghraifft ymweliad â Chors Caron i ddysgu am fywyd gwyllt. Maent hefyd yn defnyddio ymwelwyr i'r ysgol yn fwriadus i gynorthwyo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu a chyfleoedd gwahanol. Er enghraifft, elwodd y disgyblion yn fawr o ymweliadau rhieni rhai o'r disgyblion i sôn am yrfaoedd gwahanol mewn ffair gwaith. Mae'r disgyblion hŷn yn siarad yn frwd am y dyfodol a'r posibiliadau ar gyfer llwybrau llewyrchus mewn bywyd.

Mae staff yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn bwrpasol. Maent yn darparu profiadau dysgu sy'n galluogi llawer o ddisgyblion i gaffael y medrau angenrheidiol mewn gweithgareddau penodol. Er enghraifft, mae'r ddarpariaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu medrau digidol disgyblion yn golygu eu bod yn datblygu hyfedredd gydag offer digidol o oed cynnar. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion hŷn ddatblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson. Mae hyn yn llesteirio gallu disgyblion i ddefnyddio eu medrau mathemategol cryf, mewn cyd-destunau gwahanol.

Mae staff yn cynllunio cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion ddysgu yn yr ardaloedd ysgogol y tu allan i'r dosbarthiadau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio'r ardaloedd allanol amrywiol yn gyson i gyfoethogi eu medrau'n llwyddiannus. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r elfen Gymreig ei hyrwyddo'n llwyddiannus a rhoddir lle blaenllaw i ddisgyblion ddysgu am hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu a dathlu cynhwysiant a dinasyddiaeth fyd-eang, er enghraifft trwy ddysgu am fywyd a dylanwad Betty Campbell. Dros amser, mae'r ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau i ddatblygu medrau addysg bersonol a chymdeithasol disgyblion yn dda.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r perthnasoedd cefnogol sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n gadarn at greu cymuned ofalgar, gydag ethos tawel a chartrefol. Mae'r diwylliant cryf o ddiogelu plant ynghyd â'r ethos cyfeillgar a chynnes yn cefnogi'r ymdeimlad o berthyn. O ganlyniad, mae pawb yn ymrwymo'n llawn at ofalu am a pharchu eraill. Mae athrawon a chynorthwywyr yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn briodol i'w hanghenion, gan gynnwys anghenion emosiynol a lles.

Mae'r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion sydd ag ADY yn gadarn. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) a'r cymorthyddion yn frwdfrydig am eu cyfrifoldebau wrth gefnogi disgyblion. O dan arweiniad medrus y CADY, mae staff yn gwneud defnydd da o asiantaethau allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth ar gyfer y

disgyblion, er enghraifft drwy gydweithio’n agos â nyrs a'r seicolegydd addysg. Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain a monitro cynnydd disgyblion ADY o’u mannau cychwyn. Mae staff yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn amserol ac yn eu cefnogi i wneud cynnydd effeithiol. Maent yn darparu rhaglenni cymorth penodol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles emosiynol disgyblion. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol â’u dysgu neu eu lles yn gwneud cynnydd da.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta’n iach ac yn annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol, sy’n cynnwys cyfleoedd addas i gymryd rhan mewn cystadlaethau. Mae’r ardaloedd chwarae awyr agored ar y buarth yn effeithiol ac yn hybu’r disgyblion i ymgymryd â gweithgarwch corfforol yn ystod gwersi ac amser egwyl yn llwyddiannus.

Trwy themâu diddorol, mae athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant Cymru yn fedrus. Er enghraifft, fel rhan o thema ‘Saith Rhyfeddod y Byd’, cafodd y disgyblion gyflwyniad rhithiol gan ymwelydd lleol, Caradog Jones, sef y Cymro cyntaf i ddringo Everest. Mae staff yn hyrwyddo Cymreictod y disgyblion yn effeithiol ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cystadlu yn eisteddfod yr ysgol ac yn Eisteddfod leol Swydd Ffynnon. Yn ogystal, mae disgyblion hynaf yr ysgol wedi recordio cân ‘Dewch i ganu’ i gynulleidfa leol wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae athrawon yn darparu gweithgareddau sy’n sicrhau cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion feithrin dealltwriaeth gadarn o gynaliadwyedd. Er enghraifft, fel rhan o’u thema ‘Y Byd Naturiol’, cynlluniodd a chreodd y disgyblion fagiau di-blastig er mwyn eu gwerthu yn y ffair haf. Mae athrawon yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddinasyddion gofalgar a chydwybodol yn dda trwy weithgareddau sy’n cefnogi elusennau lleol a chenedlaethol, er enghraifft casglu nwyddau ar gyfer banc bwyd lleol. Yn ogystal, fel rhan o brosiect ‘Harmoni’, mae’r disgyblion wedi coginio cawl a’i ddosbarthu i’r henoed yn y pentref.

Mae staff yn darparu profiadau priodol i ddisgyblion ddatblygu’n ysbrydol, yn foesol ac yn gymdeithasol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddysgu am ystod o gredoau a chrefyddau drwy ddarganfod am draddodiadau a dathliadau amrywiol. Yn ogystal, drwy gysylltiad gwerthfawr â disgyblion mewn ysgol fawr ddinesig, maent wedi ehangu eu hymwybyddiaeth a’u dealltwriaeth o amrywiaeth.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei benodiad diweddar, mae’r pennaeth dros dro wedi gosod cyfeiriad strategol cadarn a chlir ar gyfer yr ysgol. Mae ei weledigaeth wedi ei seilio ar greu amgylchedd dysgu hapus a theuluol. Mae’r amgylchedd gofalgar hwn yn cyfoethogi gweledigaeth yr ysgol i ‘Wreiddio, Blaguro a Phrifio’ yn llwyddiannus. Mae’r holl staff yn cydweithio’n fedrus er mwyn gwireddu’r weledigaeth hon, ac mae ei heffaith i’w gweld ar ddatblygiad, cynnydd a lles y disgyblion.

Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Mae’r tîm brwdfrydig o athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun lleol a Chymreig. Mae lles y disgyblion yn greiddiol i holl waith yr ysgol ac mae staff a disgyblion yn cydweithio’n hapus. Mae’r pennaeth dros

dro yn hwyluso cydweithio effeithiol â holl randdeiliaid yr ysgol drwy chwilio am ddulliau diddorol er mwyn sbarduno a rhyngweithio, er enghraifft drwy gynnal prosiect ‘Darllen Difyr’ i hybu darllen yn y cartref i’r rhieni.

Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd yr ysgol yn drwyadl. Yn dilyn sefydlu amserlen o ystod o weithgareddau monitro, mae’r pennaeth dros dro a’r athrawon yn craffu ar lyfrau disgyblion, yn cynnal teithiau dysgu ac yn casglu barn rhanddeiliaid. Mewn amser byr, mae hyn wedi galluogi’r pennaeth dros dro i adnabod cryfderau’r ysgol ynghyd â’r agweddau ar gyfer gwelliant yn gywir.

Mae’r athrawon yn ysgwyddo cyfrifoldebau amrywiol ac yn rhannu a chydweithio’n rheolaidd a hyblyg gyda’i gilydd. Maent yn chwarae rôl lawn yn y broses ar gyfer gwerthuso a datblygu cwricwlwm yr ysgol. Mae hyn i’w weld yn arbennig yn y modd y maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr awyr agored ac wrth fwynhau profiadau sy’n codi o waith yn yr ardal leol.

Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad addas ar waith i staff. Mae ganddynt dargedau gwella pwrpasol sydd wedi’u seilio ar flaenoriaethau’r ysgol ac sydd yn bersonol i’w hanghenion datblygiadol unigol. Mae staff yn cael cyfleoedd cyson i fynychu hyfforddiant sy’n ateb gofynion eu datblygiad proffesiynol. Maent yn gweithio’n agos â staff ysgolion lleol i rannu arbenigedd a syniadau. Er enghraifft, maent wedi cydweithio’n effeithiol i rannu apiau a rhaglenni cyfrifiadurol er mwyn codi safonau a datblygu medrau TGCh y disgyblion. Esiampl arall o ddatblygiad effeithiol gweithlu’r ysgol yw rôl y cynorthwywyr wrth gefnogi anghenion lles emosiynol disgyblion.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i’r ysgol ac yn gyfeillion beirniadol buddiol. Maent yn ymgymryd â’u rôl ym mhrosesau hunanwerthuso’r ysgol yn effeithiol. Mae’r corff llywodraethol yn derbyn adroddiadau priodol gan y pennaeth yn dymhorol sydd yn canolbwyntio ar y cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau o fewn y cynllun gwella. Mae llywodraethwyr yn herio cynnydd yr ysgol yn erbyn y blaenoriaethau gwella, gan ofyn cwestiynau synhwyrol mewn modd amserol. Drwy gyfarfodydd is-banel, mae aelodau’r corff yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at faterion eraill, gan gynnwys cyllideb yr ysgol. Mae aelodau’r corff yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd gan gynnal teithiau dysgu a mynychu achlysuron o fewn y tymor. Yn dilyn yr ymweliadau, maent yn adrodd ar fedrau’r disgyblion a’r ddarpariaeth i weddill y llywodraethwyr mewn cyfarfodydd llawn. O ganlyniad, mae gan y corff llywodraethol ddealltwriaeth dda o gryfderau’r ysgol a’r meysydd i’w gwella.

Mae arweinwyr yn sicrhau diwylliant o ddiogelu disgyblion ac mae gan bob aelod o staff ddealltwriaeth gadarn o’r gweithdrefnau. Mae’r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, er enghraifft wrth annog disgyblion i fwyta ffrwyth ac yfed dŵr yn ystod y dydd.

Mae gan yr ysgol gynllun gwariant synhwyrol sydd yn sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i ddiwallu anghenion disgyblion yn bwrpasol. Mae’r arweinwyr yn monitro’r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau gwariant synhwyrol i gyd-fynd ag anghenion pwysig. Maent yn gwneud defnydd da o grantiau gwahanol sydd wedi eu dyrannu i’r ysgol, er enghraifft wrth ddefnyddio’r grant datblygu disgyblion i ddarparu ymyraethau i ddisgyblion sydd angen cymorth pellach â’u dysgu.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni a’r gymuned ehangach. Mae rhieni’n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles ac addysg eu plant. Caiff gwybodaeth berthnasol am weithgareddau’r ysgol ei rhannu’n effeithiol gyda’r rheini drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2024